

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Arbed) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Arbed) 2022.

**Jeremy Miles AS/MS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

09 Chwefror 2022

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

- 1.1 Er mwyn darparu ar gyfer gweithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (“y Ddeddf”) gam wrth gam, gan gychwyn ym mis Medi 2022, mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed mewn cysylltiad â’r mân ddiwygiadau canlyniadol a’r diddymiadau a nodir yn Atodlen 2 i’r Ddeddf.
- 1.2 Mae’r Ddeddf yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu plant a disgyblion yng Nghymru (“y Cwricwlwm newydd i Gymru”).

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

- 2.1 Dylai’r Pwyllgor nodi bod adran 84(1) o’r Ddeddf wedi cychwyn Rhan 7 o’r Ddeddf (*Cyffredinol: adrannau 72 i 85*) gan gynnwys adran 73 ac Atodlen 2 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau) ar 30 Ebrill 2021, y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Er mwyn darparu ar gyfer cyflwyno’r Cwricwlwm newydd i Gymru gam wrth gam, mae rheoliad 3 o’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed mewn perthynas â’r planta’r disgyblion hynny nad yw addysg yn cael ei darparu iddynt eto o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei weithredu gam wrth gam ar gyfer plant a disgyblion. Bwriedir i’r Cwricwlwm newydd i Gymru ddod yn orfodol ar gyfer y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion a lleoliadau fel a ganlyn —
  - a. ar 1 Medi 2022 ar gyfer—
    - i. plant sy’n cael addysg feithrin,
    - ii. disgyblion sydd yn y flwyddyn dderbyn,
    - iii. disgyblion ym mlynnyddoedd 1 i 6,
  - b. ar 1 Medi 2022 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 7 yn yr ysgolion hynny a lleoliadau eraill lle mae cwricwlwm yn cael ei ddarparu yn unol â’r Ddeddf,
  - c. ar 1 Medi 2023 ar gyfer plant a disgyblion sydd, ar 1 Medi 2022, ym mlwyddyn 7 ac nad ydynt o fewn paragraff (b),
  - d. ar 1 Medi 2023 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 8,
  - e. ar 1 Medi 2024 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 9,
  - f. ar 1 Medi 2025 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 10, ac
  - g. ar 1 Medi 2026 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 11.
- 3.2 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 74(1) a 75(1) o’r Ddeddf, sy’n cynnwys pwerau ar gyfer gwneud darpariaeth drosiannol neu

ddarpariaeth arbed y mae Gweinidogion Cymru o'r farn sy'n angenrheidiol neu'n briodol at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf neu odani, neu o ganlyniad i hynny.

3.3 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn negyddol.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Er mwyn caniatáu ar gyfer y broses weithredu gam wrth gam a ddisgrifir uchod, mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r darpariaethau a gychwynnwyd y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol ac a nodwyd yn Atodlen 2 i'r Ddeddf.

#### **5. Ymgynghoriad**

5.1 Gan fod y Rheoliadau hyn yn dechnegol eu natur, ac na fwriedir iddynt wneud newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus.

#### **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Mae diben y Rheoliadau hyn a'r effaith y bwriedir iddynt gael yn ymwneud yn uniongyrchol â'r hyn a nodir yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer y Ddeddf.

6.2 Ni baratowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân ar gyfer yr offeryn hwn gan ei fod yn defnyddio darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed er mwyn helpu i bontio o un drefn ddeddfwriaethol i'r llall. Nid yw'n newid diben nac effaith y Ddeddf. Mae hyn yn unol â chod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.